# Plannwch **goeden**

Daliwch goeden fechan iawn yn eich llaw. Un diwrnod gallai fod yn fwy na'r tŷ. Onid yw hynny'n rhyfeddol? Cychwynnwch ei thaith i fod yn gawr. Bydd yn parhau i dyfu am hir oes ar ôl i chi dyfu'n oedolyn.

## Byddwch angen

- Coeden frodorol fechan iawn (criafolen, helygen neu geiriosen wyllt fyddai'n dda)
- Rhaw
- Esgidiau neu esgidiau glaw
- Menig
- Bwced dyfrio

**1** Edrychwch ar wreiddiau eich coeden fechan er mwyn penderfynu maint y twll y bydd angen i chi ei balu. Dylai fod yn ddigon mawr i beidio â gwasgu'r gwreiddiau'n dynn. Dylai wyneb y pridd fod rhyw 5cm uwchben y gwreiddiau.

**2** Palwch y twll gan adael y pridd wrth ei ymyl.

**3** Rhowch y goeden yn y twll. Daliwch hi tra eich bod yn rhoi'r pridd yn ôl yn y twll. Dylai ffurfio twmpath ychydig yn uwch na'r tir o gwmpas.

**4** Gwasgwch y pridd i lawr yn dyner gyda chefn eich sawdl. Peidiwch â gwasgu'r pridd i lawr yn rhy galed rhag rhwystro dŵr i gyrraedd y gwreiddiau.

**5** Rhowch ddigon o ddiod i'r goeden. Mae'n sychedig iawn!

yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan Nick Cunard (rspb-images.com).